



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Argymhellion ar gyfer Gwella Mynediad Ymchwil at Ddata a Allai fod yn Ddatgelol

Crynodeb o'r Ymchwil

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 26/2014

## Nod a Chwmpas

1. Cafodd cymrodoriaeth ar Wella Mynediad Ymchwil at Ddata a Allai fod yn Ddatgelol ei hariannu ar y cyd gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru fel un o bedair cymrodoriaeth a grëwyd i lywio Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwneud y Defnydd Gorau Posibl o Ddata Presennol.
2. Nod y gymrodoriaeth oedd:
  - amlygu anghenion rhanddeiliaid o ran mynediad at ddata arolwg a gweinyddol manwl at ddibenion ymchwil;
  - adolygu'r dewisiadau presennol ar gyfer sicrhau bod data ar gael i ymchwilwyr; a
  - gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar y ffordd orau o sefydlu seilwaith technegol a gweithdrefnol er mwyn sicrhau bod data am Gymru ar gael mor hwylus â phosibl.

3. Aeth y gymrodoriaeth i'r afael â mynediad at ddata ar gyfer ymchwilwyr o fewn a'r tu allan i Lywodraeth Cymru, gan ystyried sefyllfaoedd lle y mae'n rhaid i ddata aros o fewn Llywodraeth Cymru am resymau cyfreithiol neu ymarferol, yn ogystal â'r rhai hynny lle y gall data gael ei ryddhau gan sefydliadau arbenigol y tu allan i Lywodraeth Cymru.

## Methodoleg

4. Cynhaliwyd ymgynghoriad â rhanddeiliaid, a oedd yn cynnwys cyfweiliadau wyneb yn wyneb a cheisiadau am adborth trwy negeseuon e-bost a'r we. Cynhaliwyd wyth cyfweiliad ar hugain gyda dadansoddwyr a llunwyr polisïau Llywodraeth Cymru, ymchwilwyr academaidd, arbenigwyr ar rannu data o adrannau eraill y Llywodraeth, ymchwilwyr trydydd sector a rheolwyr seilweithiau mynediad at ddata. Ceisiwyd adborth gan Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru, gan bob rhan o Lywodraeth Cymru trwy'r fewnwyd, gan Brifysgolion Cymru a thrwy flog "rhab-data" y cymrawd ymchwil.

Dadansoddi ar gyfer Polisi



## Canfyddiadau Allweddol

5. Canfu'r prosiect fod galw pendant am fwy o ddata am Gymru, yn enwedig ar lefel ddaearyddol fanwl. Fodd bynnag, ychydig o'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd oedd yn teimlo'n hyderus bod ganddynt y wybodaeth a'r seilwaith i gael mynediad at y data yr oeddent ei eisiau. Gwaethygir y broblem hon gan gymhlethdod deddfwriaeth rhannu data'r Deyrnas Unedig a'r gwasgariad arbenigedd o fewn Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru. Mewn llawer o achosion, nid Llywodraeth Cymru sy'n berchen ar y data sydd ei angen, felly mae'r problemau yn nid yn unig yn ymwneud â mynediad at ddata ond hefyd i ba raddau y mae ar gael, ac felly'r her yw datblygu gweithdrefnau a deddfwriaeth rhannu data yn ogystal â seilwaith.
6. Roedd y materion allweddol a nodwyd yn cynnwys:
  - Galw am ddata manylach am Gymru i ategu'r sylfaen dystiolaeth ar draws yr holl randdeiliaid, gan gynnwys ymchwilyr o Lywodraeth Cymru, y byd academiaidd a'r trydydd sector.
  - Mae angen data ar lefel ddaearyddol is na 'Cymru', yn enwedig i gefnogi gwerthusiad o ymyriadau polisi a dargedwyd yn ddaearyddol.
  - Adroddodd ymchwilyr o fewn a'r tu allan i'r llywodraeth nad oedd ganddynt fynediad at y seilwaith diogel priodol i gefnogi eu hanghenion mynediad at ddata.
  - Mae llawer o'r data ystadegol a gweinyddol am Gymru yn cael ei gasglu neu ei ddal gan gyrff cyhoeddus heblaw am Lywodraeth Cymru, yn enwedig adrannau llywodraeth y Deyrnas Unedig.
  - Mae deddfwriaeth y Deyrnas Unedig sy'n rheoli rhannu data yn gymhleth iawn, gan olygu ei bod yn anodd nodi'r dulliau cyfreithiol priodol i alluogi Llywodraeth Cymru i sicrhau'r adnoddau data sydd eu hangen arni gan gyrff cyhoeddus eraill.
  - Gall fod yn anodd i ddadansoddwyr yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi nodi data addas i ategu eu gwaith. Mae gwybodaeth am yr adnoddau data sydd ar gael, cyfyngiadau mynediad a deddfwriaeth wedi'i lleadaenu ledled y Gwasanaeth ac felly fe all fod yn anodd dod o hyd i wybodaeth.
7. Yn draddodiadol, ystyriwyd mynediad at ddata yn gyfaddawd syml rhwng risg a chyfleustod; hynny yw, po fwyaf defnyddiol yw'r data, y mwyaf yw'r risg ei ryddhau. Yn y blynyddoedd diweddar, mae'r seilwaith mynediad at ddata wedi newid yn sylweddol. Mae datblygiadau technegol a gweithdrefnol yn golygu y gellir diogelu data manwl iawn hyd yn oed

i lefel lle y mae'r risg yn sylweddol is nag o'r blaen. Yn 2006, lluniwyd model diogelwch ac iddo bum rhan, sef 'Pum Elfen Ddiogel (*Five Safes*)', i fynd i'r afael â rhyddhau data ar bob lefel sensitifrwydd. Mae'n cynnwys pum elfen sy'n effeithio ar ddiogelwch data – prosiectau diogel, pobl ddiogel, lleoliadau diogel, data diogel, allbynnau diogel. Gellir cyfaddawdu ar agweddau ar y pum elfen hyn i sicrhau diogelwch data. Mae'r fframwaith hwn yn cynnig cyfle i ddarparu mynediad at ddata sensitif ar yr un pryd â chynnal diogelwch data mewn ffordd sy'n cefnogi'r gofynion cyfreithiol a moesegol i ddiogelu data. Datblygwyd y fframwaith ar gyfer y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac mae'n sail i lawer o seilwaith mynediad diogel at ddata'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Rhith-labordy Microddata (VML) y Swyddfa Ystadegau Gwladol, gwasanaeth diogel Gwasanaeth Data'r Deyrnas Unedig a Lab Data Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yn ogystal â denu diddordeb cynyddol yn rhyngwladol.

8. Mae gan y Deyrnas Unedig draddodiad hirsefydlog o ddadansoddi microddata i ategu ymchwil seiliedig ar bolisiâu, ac mae adrannau'r llywodraeth wedi bod yn sicrhau bod data ar gael mewn partneriaeth â'r byd academiaidd ers dros 40 mlynedd trwy Wasanaeth Data'r Deyrnas Unedig (a'i ragflaenwyr). Bydd

buddsoddiad mawr newydd gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol mewn 'Rhwydwaith Data Mawr' yn digwydd yn 2013, gan arwain at gynnydd sylweddol yn y cyfleoedd sydd ar gael i ymchwilwyr yn y Deyrnas Unedig brosesu adnoddau microddata na ddefnyddiwyd digon arnynt yn flaenorol o systemau gweinyddol, rhwydweithio cymdeithasol, llywodraeth leol a'r trydydd sector. Bydd y buddsoddiad mawr hwn yn seilwaith mynediad at ddata'r Deyrnas Unedig yn cynnig cyfle delfrydol i Lywodraeth Cymru gynyddu cymaint â phosibl ar fynediad at adnoddau data a chyfleoedd ar gyfer ymchwil ar Gymru.

9. Elfen bwysicaf unrhyw gynllun i gynyddu cymaint â phosibl ar fynediad at ddata a allai fod yn ddatgelol ar Gymru yw Polisi Rheoli Data. Byddai Polisi Rheoli Data ffurfiol yn darparu'r sylfaen ar gyfer creu holl elfennau eraill strategaeth mynediad at ddata. Byddai'n cynnig trosolwg cynhwysfawr o'r data a ddelir a fframwaith ar gyfer cofnodi a darganfod. Byddai hefyd yn cynyddu diogelwch data trwy ffurfioli dosbarthu, storio, cynnal a rhannu data.

#### **Argymhellion allweddol:**

- Gweithredu Polisi Rheoli Data i alluogi holl adnoddau data Llywodraeth Cymru i gael eu cofnodi, eu harchifo a'u dogfennu a, lle y bo'n bosibl,

- Sefydlu Gwasanaeth Data yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi i gynyddu effeithlonrwydd defnyddwyr data o fewn Llywodraeth Cymru.
- Datblygu rhwydwaith o arbenigwyr i ddarparu dadansoddiadau wedi'u teilwra o ddata a allai fod yn ddatgelol.
- Mynnu bod pob contract â sefydliadau allanol sy'n casglu data ar ran Llywodraeth Cymru yn cynnwys cymalau sy'n nodi bod yn rhaid i ficroddata gael ei adael gyda Llywodraeth Cymru er mwyn hwyluso rheoli ansawdd, ailddefnyddio a, lle y bo'n bosibl, cysylltu.
- Gwneud defnydd llawn o'r seilwaith presennol, a datblygu safonau'n genedlaethol ac yn rhyngwladol er mwyn lleihau gwariant cymaint â phosibl, annog cefnogaeth defnyddwyr presennol, hybu safonau, sicrhau'r mynediad mwyaf posibl at adnoddau a symleiddio mynediad.
- Gweithredu Lleoliad Diogel er mwyn cynyddu cymaint â phosibl ar fynediad at Ganolfannau Data Ymchwil allanol a'r potensial ar gyfer prosesu data a ddelir gan Lywodraeth Cymru yn ddiogel yn fewnol.
- Ymchwilio i gostau a manteision datblygu seilwaith mynediad at ddata diogel yn fewnol.
- Parhau i fonitro ac ymgysylltu â phrosiectau cenedlaethol a rhyngwladol er

mwyn sicrhau'r mynediad mwyaf posibl at gyfleoedd ariannu a chynyddu'r tebygolrwydd y bydd prosiectau data yn y dyfodol yn bodloni anghenion Llywodraeth Cymru.

## **Gweithredu**

10. Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, fe allai fod yn anodd dod o hyd i arian i weithredu'r argymhellion uchod. Bydd unrhyw ymdrechion i gynyddu mynediad at adnoddau data yn arwain at gost, yn bennaf o ran amser staff i weithredu newidiadau a datblygu a chynnal systemau. Bydd angen buddsoddiad ychwanegol mewn technoleg a bydd angen lle ar leoliadau diogel. Yn y tymor canolig i'r tymor hir, mae'n rhaid ystyried cost cynnal systemau a darparu cymorth data hefyd.
11. Yr hyn sy'n allweddol i gadw costau mor isel â phosibl yw defnyddio gwasanaethau a seilwaith presennol cyn belled â phosibl, fel yr argymhellir uchod. Lle nad oes adnoddau addas yn bodoli, dylai Llywodraeth Cymru ystyried creu partneriaethau â chynghorau ariannu, sefydliadau, sefydliadau llywodraethol eraill, elusennau a, lle y bo'n briodol, y sector masnachol i ddatblygu systemau, gwasanaethau a setiau data cydfuddiannol. Er gwaethaf y costau na ellir eu hosgoi, mae'r posibilrwydd o fwy o effeithlonrwydd ac arbedion i Lywodraeth

Cymru yn y tymor canolig i'r tymor hir yn sylweddol. Er enghraifft, pe byddai'r argymhellion yn cael eu gweithredu'n effeithiol, gallai hynny leihau'r angen am wario arian yn y dyfodol ar gasglu data sylfaenol, prosesu data a dadansoddi; lleihau'r baich ar y rhai sy'n ymateb i arolygon, gan felly arbed amser ac arian i'r cyhoedd a busnesau yng Nghymru; a gwella effaith polisiâu o ganlyniad i gynnydd o ran ystod ac ansawdd y sylfaen dystiolaeth.

12. O ran effeithlonrwydd, gallai gwasanaeth rheoli data canolog yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi sy'n goruchwyllo Polisi Rheoli Data ffurfiol gyfrannu at:

- Gynnydd yn yr arbenigedd sydd ar gael i'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (a Llywodraeth Cymru yn ehangach) trwy fuddsoddi mewn staff sy'n arbenigo mewn materion yn ymwneud â defnyddio, dadansoddi a chaffael data.
- Gwelliant o ran ansawdd ymchwil trwy ddarparu cymorth arbenigol i ddadansoddi data ar Gymru.
- Gostyngiad yn yr amser paratoi ar gyfer ymchwil trwy gynorthwyo â thrafodaethau ynghylch mynediad at adnoddau allanol; a thrwy hwyluso darganfod data a rhoi gweithdrefnau

mynediad tryloyw ar waith ar gyfer adnoddau mewnol.

- Gostyngiad yn yr amser sydd ei angen i gael mynediad at wybodaeth ac adnoddau cysylltiedig â data trwy hwyluso gallu Llywodraeth Cymru i leoli ac ymgynghori â staff arbenigol.

13. Byddai mabwysiadu'r argymhellion yn y papur hwn yn galluogi'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi i ddatblygu'n sylweddol ystod ac ansawdd yr adnoddau sydd ar gael i ymchwilwyr a chanddynt ddiddordeb mewn cynnal ymchwil seiliedig ar dystiolaeth ar Gymru.

**Safbwyntiau'r ymchwilwyr, ac nid Llywodraeth Cymru o reidrwydd, yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn**

**Awdur:**

Tanvi Desai,  
Ysgol Economeg Llundain  
Cymrawd Ymchwil, Llywodraeth Cymru

**Cyswllt:**

Sarah Lowe  
Rhif ffôn: 029 2082 6229  
E-bost: [sarah.lowe@wales.gsi.gov.uk](mailto:sarah.lowe@wales.gsi.gov.uk)

ISBN 978-1-4734-1084-8

© Hawlfraint y Goron 2014